COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Talu am eich Cymorth Cyfreithiol

Cynhwysion

1. **Cyfraniadau – talu o gynilion neu incwm tuag at gost eich achos** 2
2. **Ad-dalu costau'r cyfreithiwr ar ddiwedd eich achos** 3
3. **Sut rydym yn cyfrifo'r swm sy'n ddyledus gennych?** 4
4. **Sut y gallwch ad-dalu'ch cymorth cyfreithiol** 5
5. **Manylion cyswllt swyddfeydd rhanbarthol y CGC** 8

Ynglyn â'r daflen hon

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych:

- pryd fydd yn rhaid i chi ad-dalu'ch cymorth cyfreithiol a
- sut i wneud hynny.

Os oes gennych gymorth cyfreithiol ar gyfer achos sifil, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian rydym wedi ei wario ar filiau'ch cyfreithiwr. Mae tri phrif ffordd i wneud, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio pob un ohonynt.

Y dulliau yw:

- cyfraniad o'ch cynilion (cyfalaf)
- cyfraniad misol o'ch incwm yn ystod eich achos
- ad-dalu costau'ch cyfreithiwr ar ddiwedd eich achos.

Rydym yn egluro beth yw pob un o'r taliadau hyn isod.

Oherwydd efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian rydym yn ei dalu i'ch cyfreithiwr, byddai'n fuddiol i chi beidio â chreu costau diangen.

1. Cyfraniadau – talu o gynilion neu incwm tuag at gost eich achos

Byddwn yn gweithio allan a fydd raid i chi dalu cyfandaliad o gyfalaf neu wneud taliadau misol o'ch incwm tuag at eich cymorth cyfreithiol yn seiliedig ar eich amgylchiadau ariannol. Os bydd yn ofynnol i chi dalu cyfraniadau incwm neu gyfalaf byddwn yn dweud wrthych faint y byddant a sut y gallwch eu talu.

Hyd yn oed os byddwn yn dweud wrthych nad oes rhaid i chi wneud cyfraniad, mae'n rhaid i chi ein hysbysu os yw'ch sefyllfa ariannol yn newid, oherwydd gall hyn effeithio ar p'un ai oes angen i chi dalu cyfraniad ac ar y swm y gofynnir i chi ei dalu. Gallai newid yn eich incwm neu wariant olygu y bydd yn rhaid i chi gychwyn gwneud taliadau misol, neu y bydd eich taliadau misol yn cynyddu neu'n gostwng.

Os nad ydych yn dweud wrthym am newid i'ch sefyllfa ariannol, neu nad ydych yn cydweithredu gyda ni pan wnawn unrhyw ymholiadau, mae'n bosibl y byddwn yn atal eich cymorth cyfreithiol. Os byddwn yn diddymu eich cymorth cyfreithiol, byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i chi ad-dalu yr HOLL arian rydym yn ei dalu i'ch cyfreithiwr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch cyfraniadau, dylech gysylltu â'ch swyddfa ranbarthol. Mae'r rhif ffôn ar y cefn.

2. Ad-dalu costau'r cyfreithiwr ar ddiwedd eich achos

Esbonia'r adrannau isod:

- pryd y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'ch cymorth cyfreithiol, a
- sut y gallwch ad-dalu'ch cymorth cyfreithiol.

Y tâl statudol

Os oedd cymorth cyfreithiol gennych, a'ch bod wedi cadw neu ennill eiddo neu arian ar ddiwedd eich achos, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint neu holl gostau eich achos. Byddwn yn ystyried yr arian rydym yn ei wario ar eich costau cyfreithiol yn gweithredu fel benthyciad, a bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu.

Dan y gyfraith, mae'n ofynnol i ni adennill yr arian yr ydym wedi ei wario pan fo canlyniad achos yn golygu bod rhywun yn cadw neu ennill eiddo neu arian. Rydym yn ei adennill trwy 'dâl statudol'. Mae'n dâl, neu'n hawliad, ar eich arian neu eiddo a grëwyd gan y gyfraith.

Enghraifft

Cafodd Mr A gymorth cyfreithiol tuag at ei ysgariad. Roedd Mr A a'i briod o'u dau yn berchen ar hanner eu cartref. Er bod Mr A wedi bod eisiau rhoi'r tŷ yn ei enw ef, nid oedd ei wraig yn cytuno. Ar ddiwedd yr achos, penderfynodd y barnwr y dylai Mr A gael perchnogaeth ar y tŷ cyfan.

Felly, mae Mr A wedi ennill hanner tŷ, ac yn ôl y rheolau a eglurir uchod, bydd yn rhaid iddo ad-dalu cost ei gynrychiolaeth gyfreithiol.

3. Sut rydym yn cyfrifo'r swm sy'n ddyledus gennych?

Byddwn ni neu'r llys yn asesu bil cyfreithiwr ar ddiwedd yr achos. Gwneir hyn i sicrhau bod y bil yn deg o ystyried natur yr achos a faint o waith sydd ei angen.

Os byddwch efallai'n atebol i dalu peth neu'r cyfan o'ch bil, yna mae gennych hawl i wneud sylwadau arno, ac mae'n rhaid i'ch cyfreithiwr ddangos ei fil cyn iddynt ei gyflwyno i ni i'w asesu. Os nad yw eich cyfreithiwr yn dangos y bil i chi ar ddiwedd eich achos, gofynnwch i gael ei weld.

Efallai bydd y bil yn is ar ôl cael ei asesu. Mae'n rhaid i ni dalu'r swm a aseswyd i'ch cyfreithiwr. Yna bydd y swm hwn yn ddyledus gennych i ni os ydych wedi ennill neu wedi cadw arian neu eiddo.

Os taloch gyfraniadau tuag at gost eich cymorth cyfreithiol yn ystod yr achos, bydd y rhain yn cael eu cyfrif tuag at ad-dalu eich dyled i ni.

Byddwn hefyd yn tynnu unrhyw gostau o'n rhan ni wrth asesu bil eich cyfreithiwr.

Gorchmynion costau

Mae'n bosibl y bydd y llys yn gorchymyn bod yn rhaid i'ch gwrthwynebwr dalu rhywfaint neu holl ffioedd eich cyfreithiwr. Os felly, a byddwch yn ennill neu'n cadw eiddo neu arian, bydd raid i chi dalu llai o dâl statudol. Os oes unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, siaradwch â naill ai'ch cyfreithiwr neu'ch swyddfa ranbarthol.

4. Sut y gallwch ad-dalu'ch cymorth cyfreithiol

Os ydych wedi ennill neu wedi cadw arian

Fel arfer, telir unrhyw arian a ddyfernir i chi ar ddiwedd yr achos i'ch cyfreithiwr. Ar ôl i'ch bil gael ei asesu, rydym yn cymryd yr hyn a wariwyd gennym ar eich cyfreithiwr o'r dyfarniad, ac yn rhoi'r gweddill i chi. Defnyddiwn unrhyw gyfraniadau a wnaethoch eisoes i dalu tuag at fil eich cyfreithiwr. Mae'r enghraifft isod yn esbonio hyn:

Arian a ddyfernir i chi gan y llys:		**£ 10,000**
Costau cyfreithiwr:	**£5,000**	
Cyfraniadau a dalwyd gennych eisoes:	**£2,000**	
Y cyfanswm y mae'n rhaid i chi ei dalu tuag at fil eich cyfreithiwr:		**£3,000**
Rydych yn derbyn:		**£7,000**

Os dyfernir yr arian i chi, a dymunwch brynu cartref gyda'r arian hwn, mae'n bosibl y byddwn yn gadael i chi ad-dalu ein tâl yn hwyrach. Byddwn yn 'cofrestru arwystl' ar eich eiddo newydd i sicrhau eich bod yn ad-dalu'r arian yn y pen draw. Ond os gallwch ad-dalu'n syth heb beryglu colli'ch cartref, mae'n rhaid i chi wneud hynny. Dan yr amgylchiadau hyn ni allwn adael i chi ad-dalu i ni'n ddiweddarach. Cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych wedi ennill neu wedi cadw eiddo

Os ydych wedi ennill neu wedi cadw eiddo, gallwch ohirio ad-dalu trwy gofrestru arwystl ar eich eiddo. Mae arwystl yn gofnod gyda'r Gofrestrfa Tir sy'n nodi'n swyddogol bod gennym hawl dros yr eiddo yn gyfartal â chyfanswm yr arian sy'n ddyledus gennych. Mae cofrestru arwystl yn golygu diogelu'n benthyciad o gymorth cyfreithiol i chi yn erbyn gwerth eich cartref fel petai'r benthyciad yn forgais.

Yr arwystl fydd cyfanswm bil eich cyfreithiwr, gyda chyfanswm unrhyw gyfraniadau a wnaethoch ac unrhyw gostau a daliwyd gan yr ochr arall wedi'u tynnu. Os ydych yn ennill neu'n cadw eiddo, a gallwch ad-dalu cost eich cymorth cyfreithiol yn syth, ni fydd angen i chi gael arwystl wedi'i gofrestru ar eich cartref.

Os gofynnwch i ohirio ad-dalu'r arian sy'n ddyledus gennych, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi ynglŷn â'ch sefyllfa ariannol i weld a yw hyn yn rhesymol. Os credwn y gallwch ad-dalu'r arian yn syth, byddwn yn gofyn i chi wneud hynny. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol, mae'n bosibl y byddwn yn caniatáu i chi ad-dalu eich dyled dros gyfnod hwy ar yr amod y gwnewch daliadau rheolaidd tuag ati. Caiff arwystl ei gofrestru gennym ar eich eiddo nes i chi ad-dalu'ch dyled yn llawn.

Os na allwch ad-dalu'r cyfanswm sy'n ddyledus gennych, a gofynnwch i ohirio talu trwy gael gwystl ar eich eiddo, bydd llog syml yn cronni ar eich dyled. Golyga llog syml y caiff yr un swm o arian ei ychwanegu at eich dyled bob dydd. Y gyfradd llog presennol yw 8%.

Unwaith y caiff arwystl ei gofrestru, ni fyddwch yn gallu gwerthu'ch cartref hyd oni fyddwch wedi talu'r arwystl i ni'n gyntaf. A gallwch ddefnyddio'ch tŷ fel gwarant benthyciad (benthyg arian yn erbyn eich tŷ – a elwir yn ail-ariannu) hyd oni fyddwch yn defnyddio'r benthyciad i dalu'r arwystl.

Eglurwn ar dudalen 7 sut i dalu'r arwystl.

Sut i dalu arwystl ar eich cartref

Gallwch dalu'r arwystl mewn rhandaliadau rheolaidd, neu mewn un cyfandaliad.

Bydd yr arwystl yn aros ar eich tŷ , gyda llog yn cronni fel arfer, nes i chi ei ad-dalu'n llawn i ni.

Mae rhandaliadau rheolaidd yn golygu talu £25 neu ragor bob mis i leihau'ch dyled. Gall ein Hadran Pridiannau Tir roi cyngor i chi ar sut i wneud taliadau rheolaidd.

Os yw hi'n bosibl, gallwch ad-dalu'r arian mewn un cyfandaliad yn hytrach nag mewn rhandaliadau. Gallech wneud hyn o'ch cynilion neu incwm. Fel arall, gallwch ad-dalu i ni o'r arian a gewch o werthu eich cartref neu fenthyca arian yn ei erbyn (a elwir yn ail-ariannu). Eto, bydd yr Adran Pridiannau Tir yn gallu eich helpu gyda hyn.

Unwaith eich bod wedi talu'r cyfanswm sy'n ddyledus, byddwn yn diddymu'r arwystl ar eich cartref.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'n Hadran Pridiannau Tir.

Am wybodaeth gyffredinol ac ymholiadau tra byddwn yn delio â'ch achos:

Cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol a rhoi rhif cyfeirnod eich tystysgrif.

Am gwestiynau yn ymwneud ag ad-dalu arian sy'n ddyledus ar ddiwedd eich achos:

Land Charge Department
Exchange Tower, 13th Floor, 2 Harbour Exchange Square
London E14 9GE

Ffôn: 020 7718 8451

Ymholiadau e-bost: landcharge@legalservices.gsi.gov.uk

5. Manylion cyswllt swyddfeydd rhanbarthol y CGC

Uned Gwasanaethau Cwsmeriad Canolog
11th Floor
Legal Services Commission
Exchange Tower
2 Harbour Exchange Square
London E14 9GE

Ffôn: 020 7718 8025
FFacs: 020 7718 8021

Rhanbarth Gogledd

Swyddfa Lerpwl
2nd Floor Cavern Court
8 Mathew Street
Liverpool L2 6RE

Ffôn: 0151 242 5200
FFacs: 0151 242 5394

Swyddfa Manceinion
2nd Floor, Lee House
90 Great Bridgewater Street
Manchester M1 5JW

Ffôn: 0161 244 5000
FFacs: 0161 244 5196

Canolfan Prosesu Caer
2nd Floor, Pepper House
Pepper Row
Chester CH1 1DW

Ffôn: 01244 404500
FFacs: 01244 404691

Swyddfa De Tyneside
Berkley Way, Viking Business Park
Jarrow NE31 1SF

Ffôn: 0300 2002020
FFacs: 0191 428 3794

Swyddfa Leeds
Harcourt House, Chancellor Court
21 The Calls
Leeds LS2 7EH

Ffôn: 0113 390 7300
FFacs: 0113 390 7484

Rhanbarth Canolbarth

Swyddfa Nottingham
1st Floor, Fothergill House
16 King Street
Nottingham NG1 2AS

Ffôn: 01159 084 200
FFacs: 01159 084 397

Swyddfa Birmingham
1st Floor, Cannon House
The Priory, Queensgate
Birmingham B4 6BS
Ffôn: 0121 232 5500
Ffacs: 0121 232 5695

Swyddfa Caergrawnt
62-68 Hills Road
Cambridge CB2 1LA
Ffôn: 01223 417 800
Ffacs: 01223 417 982

Cymru

Swyddfa Caerdydd
Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1PF
Ffôn: 0300 2002020
Ffacs: 02920 647173
Llinell gwasanaeth Cymraeg:
0845 609 9989

Rhanbarth De

Swyddfa Bryste
33-35 Queen Square
Bristol BS1 4LU
Ffôn: 0117 302 3000
Ffacs: 0117 302 3198

Swyddfa Brighton
3rd/4th Floor, Invicta House
Trafalgar Place, Cheapside
Brighton BN1 4FR
Ffôn: 01273 878800
Ffacs: 01273 878991

Swyddfa Reading
Dukesbridge House, 23 Duke Street
Reading RG1 4SA
Ffôn: 01189 558600
Ffacs: 01189 558608

Rhanbarth Llundain

Swyddfa Llundain
12th Floor
Legal Services Commission
Exchange Tower
2 Harbour Exchange Square
London E14 9GE
Ffôn: 0300 2002020

Cysylltiadau defnyddiol eraill:
Mae Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn darparu wybodaeth, cymorth a chyngor yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd ar amrywiaeth o faterion cyfreithiol cyffredin.
Galwch: 0845 345 4 345
Cliciwch: www.cyngorcyfreithiol cymunedol.org.uk

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Legal Services Commission
4 Abbey Orchard Street
London SW1P 2BS
www.legalservices.gov.uk
Ffôn: 0207 783 7000

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC) yn cynhyrchu'r daflen hon.

Er mwyn archebu copïau o'r taflenni y CGC cysylltwch â:

orderleaflets@communitylegaladvice.org.uk
Ffôn: 0845 3000 343
Ffacs: 0845 5438 258

Mae'r holl daflenni hyn ar gael hefyd mewn Braille a Sain.

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynhyrchu'r taflenni canlynol:

Canllaw Cam Wrth Gam i Gymorth Cyfreithiol
Canllaw Cam Wrth Gam i ddewis cynghorwr cyfreithiol
Canllaw Ymarferol i Wasanaethau Amddiffyn Troseddol
Gwasanaethau Amddiffyn Troseddol yng Ngorsaf yr Heddlu ac yn y Llys
Talu Am Eich Cymorth Cyfreithiol
Cwynion
Cynrychiolaethau
Uned Archwiliadau Arbennig
Mynediad i Wybodaeth

March 2011
LSCIL4W V2

PLAIN LANGUAGE COMMISSION
Clear English Standard
WINNING DOCUMENT